
# Gwelliannau rhwng Llandudoch a thraeth Poppit

## Lleoliad: Llandudoch

Mae Llandudoch yn un o'r cyrchfannau twristiaeth mwyaf poblogaidd yn Sir Benfro, ar ddechrau (neu ddiwedd) Llwybr Arfordir Sir Benfro. Mae'n gartref i tua 1,543 o bobl (Cyfrifiad 2021), ac yno hefyd mae abaty o'r ddeuddegfed ganrif. Mae pentref Llandudoch wedi tyfu o gwmpas ei lwybrau hanesyddol sy'n golygu bod y ffyrdd yn gul, ac yn aml mae lle yn gyfyng i gerddwyr. Mae parcio yn her, gyda'r rhan fwyaf o drigolion yn parcio ar y stryd neu mewn mannau parcio cyfyngedig drwy'r pentref.

Cynhaliwyd arolygon llif traffig yn 2017 a 2019. Mae'r brif stryd, y B4546, yn arwain ymlaen i draeth Poppit – tua 1.8 milltir i'r gogledd. Adeg y Pasg yn 2017, roedd y llif traffig yn arwain i ogledd y pentref yn dangos bod 662 o gerbydau wedi teithio rhwng 7am a 7pm (bron i un car y funud); cynyddodd hyn dros gyfnod COVID.

Mae'r cynigion i wella symudiad cerddwyr/beicwyr trwy Landudoch wedi'u codi gan drigolion lleol drwy'r cynghorwyr lleol a'r cynghorwyr sir.
Mae ceisiadau i lunio llwybr diogel i gerddwyr, a all wedyn gysylltu â thraeth Poppit, yn sail i'r cynllun presennol hwn.




Traffic Flow Data 2017 (Pre-20mph)



Dreath Poppit

Mae parcio yn Llandudoch, ac o'i amgylch, yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Ychydig o leoedd parcio ffurfiol sydd ar y stryd; ac mae llawer o drigolion yn parcio mewn mannau parcio a ganiateir ar y stryd. Gall hyn arwain at bwysau ychwanegol ar lif traffig gan greu mannau cyfyng yn y rhwydwaith ffyrdd. Ceir enghreifftiau o'r rhwydwaith priffyrdd presennol, a lluniau o gymeriad y pentref yn y ffotograffau.














Cludiant CSP
Tîm Strategaeth
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government